



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Strategaeth Adfer a Thrawsnewid Diagnosteg yng Nghymru 2023 – 2025

Sut y byddwn yn defnyddio diagnosteg
i gefnogi adferiad gwasanaethau'r GIG
a pharatoi ar gyfer anghenion y dyfodol.

Cyhoeddwyd gyntaf: Ebrill 2023

llyw.cymru

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	1
Gwybodaeth am y strategaeth hon	2
Naw thema ffocws	4
Gweledigaeth ar gyfer diagnosteg	8
Cyfeiriadau	10

Rhagair y Gweinidog

Mae gwasanaethau diagnostig yn agwedd hollbwysig ar ddarparu gofal iechyd modern. Ni all llwybrau clinigol weithredu'n briodol heb ddigon o gapasiti i gynnal profion, gweithdrefnau, ac adroddiadau diagnostig mewn modd amserol. Mae ôl-groniadau mawr o weithdrefnau diagnostig yn atal GIG Cymru rhag gwella amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, yn amharu ar effeithiolrwydd llwybrau sgrinio, ac yn arwain at brofiad gwael i gleifion. Hefyd, mae ganddynt y potensial i arwain at niwed a chanlyniadau gwaeth.

Nid yw COVID-19 wedi diflannu, ac ochr yn ochr ag effeithiau newidiadau byd-eang mewn ymddygiad a ffactorau eraill, bydd yn parhau i greu heriau newydd a heriau sy'n datblygu y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw er mwyn sbarduno gwelliant a darparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy i bobl Cymru.

Trwy **'Ein rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru'** rwyf wedi gofyn am sefydlu Bwrdd Diagnosteg Cenedlaethol pwrpasol sydd â'r dasg o gynorthwyo adferiad gwasanaethau diagnostig GIG Cymru, a darparu gwybodaeth glir am anghenion esblygol ein poblogaeth a gofyniad pendant i drosglwyddo i wasanaethau sy'n addas ac yn ddigonol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rhaid inni gydweithio i fapio sut y gallwn ysgogi a chydgyssylltu buddsoddiad a gweithredoedd ar gyfer yr heriau sy'n ein hwynebu fel system ar gyfer pobl Cymru. Mae COVID-19 wedi amlygu pwysigrwydd defnyddio tystiolaeth i lywio ein gweithredoedd. Rhaid inni wneud hyn eto er mwyn disgrifio'r problemau yn gywir ac yn agored, a mynd i'r afael â nhw drwy ein polisïau, ac er mwyn i GIG Cymru gyflawni. Wrth wneud hyn, byddwn ni'n gwella iechyd a lles pobl yng Nghymru ac yn creu gwasanaethau diagnostig modern a chynaliadwy yn GIG Cymru; gan gynnwys gwasanaethau newydd a gwasanaethau sy'n datblygu, a modelau diagnostig newydd ledled ystod o lwybrau a chlefydau. Mae angen gweithredu'n gyflym, ond rhaid inni sicrhau bod modd defnyddio unrhyw ymyrraeth tymor byr fel sylfeini ar gyfer uchelgeisiau mwy hirdymor.

Mae'r strategaeth hon yn nodi blaenoriaethau ac amcanion uniongyrchol y Bwrdd Diagnosteg Cenedlaethol a sut y mae'n bwriadu cyflawni yn erbyn yr anghenion presennol hynod heriol, gan gadw golwg ar yr anghenion sydd eto i ddod.



Eluned Morgan AS

Y Gweinidog Iechyd
a Gwasanaethau
Cymdeithasol

Gwybodaeth am y strategaeth hon

Ar gyfer pwy mae'r strategaeth hon?

Mae'r strategaeth hon ar gyfer GIG Cymru yn ei gyfanrwydd.

Ei nod yw arwain a chydgyssylltu camau cefnogol i gynorthwyo adferiad gwasanaethau diagnostig wrth inni symud o gyfnod aciwt y pandemig.

Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod ymyraethau ac ymrwymadau a gyflwynir yn y tymor byr yn cyd-fynd â'r galw a ragwelir yn y dyfodol ac yn symud tuag at fodelau cyflawni wedi'u hoptimeiddio fel sylfaen trawsnewid cynaliadwy hirdymor.

Trwy gydweithio yn unol â'r egwyddorion a nodir yma, byddwn yn dylunio ac yn darparu gwasanaethau cyhoeddus gwell a fydd yn cael effaith fanteisiol uniongyrchol ar ganlyniadau iechyd cleifion ac yn lleihau anghydraddoldebau ledled y wlad.

Beth yw'r Canlyniadau a'r Profiadau rydym ni eisiau eu gwella?

- Gwella canlyniadau a lleihau'r pwysau ar ofal eilaidd.
- Mynd i'r afael ag angen am ofal heb ei ddiwallu sydd wedi gwaethygu oherwydd COVID-19.
- Galluogi pobl i fyw bywydau hirach a mwy iach yn eu cartrefi eu hunain.
- Nodi, rheoli ac ymyrryd yn gyflymach ac yn gynharach mewn achosion o glefyd.
- Creu system iechyd integredig gynaliadwy a deallus sy'n lleihau anghydraddoldeb.
- Gwneud Cymru yn lle gwych i fyw a gweithio.

Sut byddwn ni'n gwneud hyn?

Byddwn yn:

1. Creu capasiti diagnostig ychwanegol yn gyflym.
2. Symud i ddull gweithredu cyfun ym maes diagnosteg yn ei gyfanrwydd.
3. Darparu arweinyddiaeth genedlaethol fwy cyfarwyddol i GIG Cymru trwy'r Bwrdd Diagnosteg Cenedlaethol.
4. Sefydlu Strategaeth Trawsnewid Diagnosteg Genedlaethol bwrpasol fel rhan o Weithrediaeth GIG Cymru.
5. Hwyluso trawsnewidiad mewn modelau gwasanaethau diagnostig.

Atebolrwydd ac arweinyddiaeth

Mae gennym ni, Lywodraeth Cymru a GIG Cymru, rôl arweinyddiaeth glir yn y broses o gyflwyno'r strategaeth hon, ond ni fyddwn yn cyflawni'r newid sylweddol sydd ei angen ledled Cymru ar ein pennau ein hunain. Ni fydd modd gwireddu'r uchelgais a ddisgrifir yma heb weithio mewn partneriaeth, cydweithio a chydgyssylltu; gan ddileu arferion gweithio mewn seilo er mwyn cynorthwyo darpariaeth.

Er mwyn helpu i gyflwyno'r strategaeth hon, bydd y Bwrdd Diagnosteg Cenedlaethol yn recriwtio Arweinydd Clinigol Cenedlaethol a Chyfarwyddwr Rhaglen ar gyfer Diagnosteg.

Bydd y Bwrdd Diagnosteg Cenedlaethol yn helpu i gyflwyno'r strategaeth ledled GIG Cymru ac yn helpu i fonitro cynnydd ac adrodd ar y strategaeth hon.

Byddwn yn gosod amserlen uchelgeisiol ond ymarferol ar gyfer y camau arfaethedig er mwyn cyflawni ein nodau a ddisgrifir erbyn 2025.

Naw thema ffocws

Mae'r gwaith o archwilio anghenion hanesyddol a phresennol, ac anghenion tebygol yn y dyfodol, ar gyfer gwasanaethau diagnostig wedi nodi naw thema allweddol y bydd angen canolbwyntio arnynt yn benodol:

1. Pobl a Chleifion

- Gwneud yr hyn sy'n bwysig i bobl gan ddangos ymrwymiad i gydgyhyrchu a deall gwerth.
- Mynd ati'n ddyfal i leihau anghydraddoldebau yn ein holl waith.

2. Y Gweithlu

- Cynyddu'n sylweddol lwybr hyfforddiant arbenigwyr diagnostig, gan gynnwys rolau ymarfer uwch (e.e. gwyddonwyr biofeddygol sy'n adrodd, radiograffwyr sy'n adrodd, ymarferwyr gofal sylfaenol awdioleg uwch) a rolau gradd ymgynghorol (e.e. gwyddonwyr clinigol ymgynghorol) wrth ailddylunio'r gwasanaeth a'r gweithlu.
- Mabwysiadu model yr Academi Ddelweddu ar gyfer disgyblaethau eraill er mwyn helpu i hyfforddi a datblygu'r gweithlu diagnostig.
- Parhau i ddatblygu dulliau gweithio amlbroffesiynol darbodus ar gyfer diagnosteg.
- Mynd ati i fabwysiadu trefniadau gweithio hybrid ac 'adrodd o gartref'.

3. Trawsnewid Gwasanaethau

- Creu modelau cenedlaethol neu ranbarthol ar gyfer gwasanaethau bregus gan gydgyrnhoi rhai gwasanaethau er mwyn gwella diogelwch, cyfraddau prosesu ac effeithlonrwydd.
- Symud diagnosteg lai cymhleth yn nes at ofal sylfaenol a chymunedol.
- Gweithredu cynllunio cenedlaethol ar gyfer darpariaeth ddelweddu gymhleth fel PET-CT.

4. Digidol

- Integreiddio a digidoleiddio'r holl geisiadau ac adroddiadau yn ymwneud â phrofion trwy blatfformau cenedlaethol sengl, gan adrodd ar draws ffiniau Byrddau Iechyd a mabwysiadu atebion technoleg ddigidol arloesol gan gynnwys deallusrwydd artiffisial.

5. Comisiynu a Chaffael

- Datblygu manylebau gwasanaeth diagnostig cenedlaethol gan ddefnyddio gwybodaeth a phrofiad Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i ddisgrifio safonau disgwylidig ar gyfer yr holl ddulliau o fewn GIG Cymru.
- Datblygu egwyddorion caffael cenedlaethol cynaliadwy a gwydn sy'n seiliedig ar werth fel egwyddorion safonol ledled GIG Cymru, gan ddefnyddio arbenigedd cynhenid Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a thimau caffael Byrddau Iechyd/ Ymddiriedolaethau.

6. Ansawdd a Diogelwch

- Sicrhau bod yr holl wasanaethau diagnostig (a gwasanaethau ategol) yn cael eu hachredu'n ffurfiol.
- Datblygu gwasanaethau rheoli a chefnogi asedau diogel a chynaliadwy ar gyfer diagnosteg.

7. Perfformiad

- Gweithredu ar sail data a thystiolaeth.

8. Ystadau

- Defnyddio contractau gwasanaeth a reolir i ddarparu hybiau diagnostig rhanbarthol a/neu gymunedol.
- Buddsoddi cyfalaf er mwyn uwchraddio cyfleusterau diagnostig i fodloni safonau dihalogi ac achredu.
- Cydgrynhoi gwasanaethau labordy 'oer' ar sail ranbarthol er mwyn sbarduno arloesedd ac effeithlonrwydd – gan gefnu ar hen fodolau seiliedig ar ysbytai a chreu amgylcheddau labordy sydd â phwyntiau cyswllt ar gyfer y gwasanaeth, y byd academiaidd a diwydiant.

9. Ymchwil ac Arloesi

- Cynnal profion trylwyr ar dechnolegau sy'n dod i'r amlwg a'u cyflwyno'n gyflym ledled Cymru.
- Defnyddio ymchwil i ofyn cwestiynau pwysig a gwella canlyniadau.
- Sicrhau mwy o bartneriaethau y gellir ymddiried ynddynt gyda'r byd academiaidd, diwydiant, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU er mwyn sbarduno buddsoddiad, arloesedd a chanlyniadau gwell yng Nghymru; gan greu amgylchedd ar gyfer cydweithio ar draws ffiniau sefydliadau.

Bydd y Bwrdd Diagnosteg Cenedlaethol yn herio'r Strategaeth Trawsnewid Diagnosteg Genedlaethol i ddatblygu cynllun cyflawni manwl sy'n ymgorffori'r themâu hyn fel egwyddorion allweddol.

Ein dull gweithredu

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon, rydym wedi ymgysylltu'n eang ag amrywiaeth o grwpiau a fforymau rhanddeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o GIG Cymru.

Rydym wedi mesur y pwysau cynyddol sy'n wynebu gwasanaethau diagnostig GIG Cymru o ganlyniad i effeithiau niweidiol pandemig COVID-19. Mae'r effeithiau hyn wedi amlygu ymhellach rôl hanfodol maes diagnosteg ar hyd y rhan fwyaf o lwybrau gofal, a'r ffaith bod cleifion yn symud trwy'r system gofal iechyd yn arafach pan fydd y galw am y gwasanaethau hyn yn drech na'r capasiti.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi nodi ein hymrwymiad i ddatblygu gwasanaethau diagnostig sy'n addas i'r dyfodol trwy nifer o offerynnau cenedlaethol penodol. Fodd bynnag, mae pandemig COVID-19 wedi cynyddu'r angen i weithredu ar frys ac o dan gyfarwyddyd. Trwy gysylltu ag arbenigwyr clinigol ac arbenigwyr gwasanaeth perthnasol ledled GIG Cymru, rydym wedi sicrhau'r adnodd angenrheidiol trwy'r Bwrdd Diagnosteg Cenedlaethol a'r rhaglen gysylltiedig. Cylch gwaith y Bwrdd a'r rhaglen fydd sicrhau bod GIG Cymru yn derbyn y cymorth a'r arweiniad sydd eu hangen ar gyfer adferiad a thrawsnewidiad cyflym.

Ein nod yw sicrhau bod gan boblogaeth Cymru fynediad at wasanaethau diagnostig amserol sy'n addas ac yn ddigonol i lywio'r rheolaeth glinigol o'u cyflwr.

Tystiolaeth

Cyn pandemig COVID-19, roedd yr angen i wella, trawsnewid ac ailddylunio llwybrau diagnostig wedi'i ddisgrifio'n dda mewn strategaethau a pholisïau gan Lywodraeth Cymru, a chan eraill^{1,2,3,4,5,6,7,8}.

Cyfeiriodd Cymru lachach⁷ at ddiagnosteg arferol fel un o'r gwasanaethau y gellir eu darparu yn ddiogel ac i ansawdd uchel fel siop un stop integredig, mor agos â phosibl i gartrefi pobl. Roedd Fframwaith Gwyddor Gofal Iechyd GIG Cymru — Edrych tuag at y Dyfodol⁴ yn cyfeirio at rôl gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gwireddu potensial technolegau a phrofion diagnosteg newydd. Mae yna ddadleuon a thystiolaeth hysbys yn ymwneud â'r rheswm am hyn; gan gynnwys galw cynyddol am ddiagnosteg a phoblogaeth sy'n heneiddio i leihau anghydraddoldebau, ac i ddarparu ar gyfer gwasanaethau diogel cynaliadwy^{4,8}.

Mae Adroddiad Richards ar Ddiagnosteg yn GIG Lloegr yn darparu map llwybr manwl y gallwn ei ddefnyddio yng Nghymru i'n helpu i gyflwyno newid.

Mae tystiolaeth ar draws clefydau a llwybrau amrywiol yn dangos bod perfformiad a chanlyniadau iechyd wedi dirywio, gan gynnwys methu cyfleoedd diagnostig ar gyfer cyflyrau hirdymor, amseroedd aros hirach ar gyfer gofal a gynlluniwyd, ac, yn anffodus, cynnydd diweddar yn nifer y marwolaethau ychwanegol nad ydynt yn gysylltiedig â COVID-19.


Deilliodd y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol o Cymru lachach, ac mae wedi'i fabwysiadu fel elfen allweddol o fodel gwaith Gweithrediaeth y GIG. Mae'r Fframwaith yn bwyt cyfeirio ac yn gyfuniad o'r rhan fwyaf o weithredoedd sy'n rhan o Cymru lachach. Mae'r Fframwaith yn disgrifio 'system iechyd a gofal sy'n dysgu' fel y model a fydd yn cyflawni amcanion Cymru lachach, gan ddefnyddio egwyddorion athronyddol Gofal Iechyd Darbodus a pheccynnau cymorth ymarferol Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth (ffigur 1). Mae'n seiliedig ar ddata, wedi'i lywio gan dystiolaeth, wedi'i gydgyhyrchu, ac yn canolbwyntio ar gleifion a'r boblogaeth.

Ffigur 1. Crynodeb o'r camau gweithredu yn y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol



Bydd y Strategaeth Trawsnewid Diagnosteg yn Rhaglen Alluogi Genedlaethol allweddol ac yn cysylltu â'r Rhwydweithiau Clinigol wrth iddynt ddatblygu a gorgyffwrdd rhwng y rhaglenni galluogi llorweddol (e.e. gofal sylfaenol, gofal a gynlluniwyd).

Ffigur 2. Llwybrau gofal iechyd seiliedig ar werth



Bwriad Cynllun Diagnosteg Cenedlaethol yw dwyn ynghyd y rhaglenni gwaith sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru, gan greu un portffolio, er mwyn galluogi dull gweithredu cydgysylltiedig a fydd yn ein helpu i gyflawni yn erbyn heriau newydd a heriau presennol yn gyflym ac ar raddfa. Mae llawer o'r sylfeini eisoes ar waith yn sgil ymrwymadau a buddsoddiadau blaenorol mewn meysydd allweddol a fydd yn cefnogi cam nesaf ein taith ddiagnostig yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Buddsoddi yn yr Academi Ddelweddu Genedlaethol.
- Caffael a chyflwyno system Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru.
- Mabwysiadu a chyflwyno Patholeg Gellog Ddigidol.
- Caffael system radioleg ddiagnostig sy'n cwmpasu'r broses gyfan.
- Ymrwymadau i ddatblygu Cynllun cenedlaethol ar gyfer Profi yn y Man Lle y Rhoddir Gofal.
- Buddsoddi mewn PET-CT yng Nghymru a'i ailfframio.
- Buddsoddiad a chymorth ar gyfer rhaglenni diagnostig cenedlaethol ym meysydd endosgopi, patholeg, genomeg, a delweddu.
- Buddsoddiad a chymorth ar gyfer y rhaglen gwyddor gofal iechyd genedlaethol sy'n cynnwys y 50+ o ddisgyblaethau gwyddor gofal iechyd ledled Cymru, gan gynnwys y gwyddorau Ffisiolegol (e.e. Ffisioleg Gardiaidd, Ffisioleg Anadlol, Niwroffisioleg).

Gweledigaeth ar gyfer diagnosteg

Diagnosteg yng Nghymru: gwella bywydau pawb trwy gydweithio, arloesi a gwella gwasanaethau cyhoeddus.

Mae canlyniadau'r strategaeth hon a'r camau a bennir yn y cynllun cyflawni cysylltiedig yn cael eu llywio gan y weledigaeth glir hon o'r hyn rydym am ei gyflawni yng Nghymru.

Chwe amcan i gefnogi'r weledigaeth:

Er mwyn adfer gwasanaethau diagnostig erbyn 2025 a gosod y sylfeini ar gyfer cynaliadwyedd mwy hirdymor, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Dal i fyny â'r galw heb ei ddiwallu am wasanaethau diagnostig ar gyfer cyflyrau brys yn unol â'r Cynllun Adfer ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd⁹.
- Trawsnewid gwasanaethau a symud y tu hwnt i ffiniau traddodiadol er mwyn rhoi cleifion wrth galon y broses, lleihau anghydraddoldeb, gwella canlyniadau a lleihau'r galw am ofal eilaidd.
- Creu a chynnal gwasanaethau diogel gyda llwybrau a modelau gweithlu darbodus sy'n seiliedig ar werth.
- Cael ein llywio gan dystiolaeth a data.
- Creu amgylchedd lle mae ymchwil ac arloesi yn gwella canlyniadau a phrofiadau a lle mae llwyddiant yn cael ei ledaenu ar raddfa.
- Cysylltu'n ddi-dor â'r Cynllun Clinigol Cenedlaethol¹⁰ a rhaglenni galluogi perthnasol (e.e. Fframwaith Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil, Adnodd Data Cenedlaethol) ac ymrwymadau'r llywodraeth¹¹.

Cyflawni a Gweithredu

Rydym wedi nodi chwe amcan yn y strategaeth hon a byddwn yn parhau i ymgysylltu â GIG Cymru, cyrff cynghori statudol, rhaglenni cenedlaethol a grwpiau rhanddeiliaid i sicrhau bod ein blaenoriaethau yn ddynamig, gan ymateb i newidiadau yn ystod oes y strategaeth.

Er mwyn gwireddu hyn, byddwn yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar gyflawni. Er mwyn helpu i gyflwyno'r strategaeth hon yn llwyddiannus, bydd Rhaglen Trawsnewid Diagnosteg Genedlaethol yn cael ei sefydlu o fewn Gweithrediaeth GIG Cymru.

Bydd y Rhaglen Trawsnewid Diagnosteg Genedlaethol yn:

- Cael ei chadeirio gan Uwch Swyddog Cyfrifol ac Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Diagnosteg. Bydd y swyddi parhaol hyn yn arwain y gwaith o lunio a chyflwyno Cynllun Cyflawni Diagnosteg manwl.
- Goruchwyllo'r gwaith o wireddu'r dyheadau uchod mewn ffordd foesebol a theg gan weithredu fel mecanwaith hwyluso a goruchwyllo rhwng rhaglenni cenedlaethol, Gweithrediaeth GIG Cymru a GIG Cymru.
- Gweithio gyda rhaglenni a dulliau atebolrwydd sydd eisoes yn bodoli o dan y strwythur newydd, a chefnogi rhwydweithiau cenedlaethol ar gyfer endosgopi, delweddu, genomeg, cardio-anadlol, gwyddor gofal iechyd, patholeg (gan gynnwys profion yn y man lle y rhoddir gofal) a digidol er mwyn darparu ffocws proffesiynol craff ar gyflawni a rhagoriaeth.

- Ymgysylltu'n gynnar ac yn eang â rhwydweithiau clinigol, a datblygu cynllun manwl i'w gyflwyno.
- Adolygu'r strategaeth hon yn gyson er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i gyd-fynd â'r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol cyffredinol a rhaglenni llorweddol (e.e. gofal sylfaenol).
- Gweithio gyda gwybodaeth glinigol arbenigol ac ymgysylltu â gwasanaethau a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg er mwyn diweddarau'r strategaeth hon wrth i amser fynd heibio.

Sut byddwn yn gwybod a ydym wedi llwyddo?

Er mwyn monitro cynnydd yn effeithiol yn erbyn ein dyheadau a'r canlyniadau a'r profiadau rydym eisiau eu gwella, bydd y Bwrdd Diagnosteg Cenedlaethol yn defnyddio'r metrigau canlynol i werthuso cynnydd:

- Ymrwymiad y Fframwaith Cyflawni ar gyfer nifer y llwybrau sy'n aros wyth wythnos am brawf diagnostig penodol¹².
- Ymrwymiad y Cynllun Gweithredu Endosgopi Cenedlaethol⁵ i achredu unedau endosgopi.
- Yr ymrwymiad Moderneiddio a Thrawsnewid Gofal a Gynlluniwyd i wella mynediad at wasanaethau diagnosteg a chyflwyno hybiau diagnostig⁹.

Yn ogystal, bydd yn ofynnol i'r Strategaeth Trawsnewid Diagnosteg wneud y canlynol:

- Cyflymu'r broses o ddarparu gwasanaethau diagnostig i sicrhau bod amseroedd rhwng atgyfeirio ac adrodd ar y canlyniadau ar gyfer profion diagnostig yn gostwng i wyth wythnos erbyn gwanwyn 2024⁹.
- Darparu adroddiadau bob deufis ar adferiad i'r Bwrdd Diagnosteg Cenedlaethol.

Yn ehangach, bydd y Cynllun yn helpu gwasanaethau diagnostig i wella'r sefyllfa o safbwynt hyd rhestrau aros yn dilyn effaith y pandemig, a bydd yn datblygu gwasanaethau cynaliadwy sydd â'r capasiti gweithlu a'r cynhyrchiant i ddiwallu'r angen yn y dyfodol.

Cyfeiriadau

- 1 **Datganiad o Fwriad Patholeg, 2019** llyw.cymru/sites/default/files/inline-documents/2019-04/datganiad-o-fwriad-patholeg.pdf
- 2 **Datganiad o Fwriad o ran Delweddu, 2019** llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/datganiad-o-fwriad-o-ran-delweddu.pdf
- 3 **Strategaeth Genomeg ar gyfer Meddygaeth Fanwl, 2017** llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/strategaeth-genomeg-ar-gyfer-meddygaeth-fanwl.pdf
- 4 **Gwyddor Gofal Iechyd yn GIG Cymru – ‘Edrych tuag at y Dyfodol,’ 2018** llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/gwyddor-gofal-iechyd-yn-gig-cymru.pdf
- 5 **Cynllun Gweithredu'r Rhaglen Endosgopi Genedlaethol, 2019** llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/cynllun-gweithredu-rhaglen-endosgopi-genedlaethol-2019-2023.pdf
[gov.uk/government/publications/the-future-of-uk-clinical-research-delivery-2022-to-2025-implementation-plan/the-future-of-clinical-research-delivery-2022-to-2025-implementation-plan](https://www.gov.uk/government/publications/the-future-of-uk-clinical-research-delivery-2022-to-2025-implementation-plan/the-future-of-clinical-research-delivery-2022-to-2025-implementation-plan)
- 6 **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, 2015** www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/
- 7 **Cymru Iachach, 2018/2021** llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-09/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf
- 8 **NHS England Diagnostics Recovery and Renewal, 2020** www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2020/11/diagnostics-recovery-and-renewal-independent-review-of-diagnostic-services-for-nhs-england-2.pdf
- 9 **Ein Cynllun ar gyfer Trawsnewid a Moderneiddio Gofal a Gynlluniwyd a Lleihau Rhestrau Aros yng Nghymru, 2022** llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-04/ein-rhaglen-i-drawsnewid-a-moderneiddio-gofal-a-gynlluniwyd-a-lleihau-rhestrau-aros-yng-nghymru_0.pdf
- 10 **Fframwaith Clinigol Cenedlaethol, 2021** llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-05/fframwaith-clinigol-cenedlaethol-system-iechyd-a-gofal-syn-dysgu-update_0.pdf
- 11 **Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad, 2022** llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-2021-i-2026.html
- 12 **Y Fframwaith Cyflawni, 2023** llyw.cymru/gig-cymru-fframwaith-cyflawni-chanllawiau-ar-adrodd-2022-i-2023 (llyw.cymru)